



Annwyl Cyngorydd Elwyn Jones

Diolch am eich gohebiaeth ynghylch y cynnig a fabwysiadwyd yn eich cyfarfod diweddar.

Fi yw Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans ac rwy'n arwain gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (PGAB). Mae PGAB yn gydbwyllgor o bob bwrdd iechyd yng Nghymru a chynrychiolir pob bwrdd iechyd gan eu prif weithredwr. Mae PGAB yn gyfrifol am gomisiynu'r Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (GATMB).

Cytunaf â'ch sylwadau ynglŷn â'r Elusen Ambiwlans Awyr Cymru (Yr Elusen). Mae'r Elusen yn bartner hanfodol wrth ddarparu'r gwasanaeth gofal critigol cenedlaethol pwysig hwn i boblogaeth Cymru ac mae cefnogaeth y cyhoedd i'r Elusen wedi bod yn amlwg o'r sylwadau a'r cwestiynau niferus a gefais dros y misoedd diwethaf. Mae'r Elusen a'r GATMB yn cydweithio i geisio cynyddu nifer y cleifion y gellir eu trin.

Cenhadaeth yr Elusen yw darparu gofal meddygol uwch sy'n achub bywydau i bobl ledled Cymru, pryd bynnag a lle bynnag y mae ei angen arnynt. Mae ardaloedd gwledig yn rhan bwysig o hyn. Fel Elusen mae'n ofynnol iddynt sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o'u holl adnoddau. Yn ogystal, mae dadansoddiad mewnol wedi dangos bod yna bobl ledled Cymru o hyd nad yw'r EMRTS yn gallu eu mynychu, oherwydd sawl ffactor. Yn ystod y cyfnod hwn, mae o fudd i ni i gyd i liniaru unrhyw effaith bosibl ar yr Elusen a'u cefnogi i wneud eu gwaith pwysig.

Rwyf wedi nodi'r pwyntiau yr ydych wedi'u gwneud ynghylch Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae'n bwysig nodi, er ein bod yn gweithio'n agos mewn partneriaeth, nad yw'r GATMB yn cymryd lle'r gwasanaethau a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGGAC). Mae staff YGGAC fel arfer yn gyntaf yn lleoliad digwyddiad neu argyfwng meddygol ac yn cynnig yr ymyriadau achub bywyd cychwynnol hollbwysig. Anaml y bydd GATMB yn mynychu digwyddiad heb bresenoldeb YGGAC.

O safbwynt GATMB, mae staff profiadol yn monitro'r galwadau 999 mwyaf difrifol ac yn anfon y criwiau mwyaf priodol yn awtomatig, mae'r rhain yn argyfyngau sy'n gofyn am y gofal critigol safonol yr adran achosion brys y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu. Hefyd, ar rai achlysuron, gall argyfyngau fod yn waeth nag a adroddwyd gyntaf, neu gall claf ddirywio'n gyflym. Pan fydd hyn yn digwydd, gall parafeddyg YGGAC sy'n ymwneud â'r digwyddiad gysylltu â Hyb Gofal Critigol GATMB i ofyn am gyngor ac, os oes angen, cymorth meddygol wrth gefn. Dim ond y lefel uchaf o alwadau brys sy'n bygwth bywyd neu rhan corff fraich y mae'r GATMB yn eu mynychu.

Unwaith eto, mae'n hanfodol pwysleisio nad yw GATMB yn disodli YGGAC. Ar gyfer y canlyniadau gorau i gleifion, mae ymyriadau gan YGGAC ac yna GATMB yn bwysig.

Rydych yn gywir wrth nodi bod y Cynnig Datblygu Gwasanaeth GATMB gwreiddiol yn cynnwys y potensial i weld tua 580 o gleifion ychwanegol. Ar ôl derbyn y cynnig hwn yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, gofynnodd aelodau PGAB am ragor o graffu mewn nifer o feysydd. Bydd y broses graffu ddiuedd a gwrthrychol hon yn cael ei harwain gan fy nhîm a minnau. Bydd hyn yn annibynnol ar y tybiaethau a'r modelu sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig. Mae'r Cynnig Datblygu Gwasanaeth gwreiddiol wedi'i roi o'r neilltu ac mae'r PGAB yn cynnal eu Hadolygiad Gwasanaeth GATMB eu hunain.

Roedd llawer o'r adborth a'r her ynghylch y cynnig cychwynnol yn canolbwyntio ar allbynnau'r modelu gan Optima. Ein bwriad yw y bydd y dull dadansoddi o'r newydd a chynnal ymgysylltiad ffurfiol â'r cyhoedd yn galluogi rhanddeiliaid i lywio'r opsiynau sydd i'w hadolygu a chytuno ar sut y bydd manteision, risgiau ac effaith pob opsiwn yn cael eu mesur fel rhan o broses agored a thryloyw. Bydd y broses yn archwilio ac yn gwneud y mwyaf o'r gweithgaredd ychwanegol y gellid ei gyflawni o'r canolfannau presennol ac yn archwilio opsiynau i ad-drefnu'r gwasanaeth.

Mae'r PGAB, fel comisiynwyr y gwasanaeth, wedi ymrwymo i broses agored, onest, tryloyw ac ystyrion. Yn dilyn y broses ymgysylltu, bydd adroddiad yn cael ei baratoi a fydd yn nodi pob opsiwn a'u manteision a'u risgiau ac yn gwneud argymhelliad i aelodau PGAB.

Mae barn y cyhoedd yn hynod bwysig ac rydym ar hyn o bryd yn gweithio gydag arweinwyr ymgysylltu, cyfathrebu a newid gwasanaeth y byrddau iechyd a chyda chydweithwyr o'r Cyngor Iechyd Cymuned i ddatblygu a chytuno ar ddeunyddiau ymgysylltu priodol gan gynnwys amserlen ymgysylltu. Byddwn mewn cysylltiad ynglŷn â'r trefniadau i sicrhau bod eich sylwadau'n cael eu derbyn a bod eich barn yn cael ei chlywed fel rhan o'r broses hon. Disgwyliaf y bydd y broses hon yn dechrau ddechrau mis Chwefror.

Yr eiddoch yn gywir



Stephen Harrhy

Chair (EASC Management Group) and Chief Ambulance Service Commissioner
Cadeirydd (Grŵp Rheoli PGAB) a Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans